

Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

Datganiad i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith

02920 491818 | 07815 071164

www.neu.org.uk

[www.Facebook.com/nationaleducationunion](https://www.facebook.com/nationaleducationunion)

[www.Twitter.com/@NEUnion](https://www.twitter.com/@NEUnion)



9^{fed} Tachwedd 2019

Mae'n rhaid i'r gefnogaeth i aelodau gyda phroblemau iechyd meddwl fod yn flaenoriaeth

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol ar bob Awdurdod Lleol Cymru gyflwyno siarter iechyd meddwl sy'n amddiffyn gweithwyr trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn dweud and yw cynghori a chefnogi aelodau sydd â phroblemau iechyd meddwl yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau iechyd sy'n gysylltiedig â gwaith.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

“Mae ein haelodau yn glir bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd iechyd meddwl y rhai a gyflogir mewn addysg o ddifrif. Credwn fod newid y gweithle a chydabod y pwysau ar weithwyr addysg proffesiynol yn ganolog bwysig.

“Byddwn yn edrych i weithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac yn yr awdurdodau lleol i sicrhau bo rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth.”

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 4. Iechyd Meddwl yn y Gweithle

Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn cydnabod bod yna argyfwng iechyd meddwl sy'n cynnwys athrawon a gweithwyr addysg eraill. Mae'r ffactorau yn y gweithle sy'n cyfrannu at straen a phryder yn cynnwys:

1. Aflonyddu a bwlio.
2. Baich gwaith gormodol a diangen.
3. Dosbarthiadau gorlawn.
4. Disgyblion afreolus ac aflonyddgar.
5. Grymoedd eraill y tu hwnt i reolaeth y gweithwyr.

Mae'n rhaid i'r gefnogaeth i aelodau gyda materion iechyd meddwl parhau i fod yn flaenoriaeth i'r NEU. Nid yw cynghori a chefnogi aelodau sydd â phroblemau iechyd meddwl yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau iechyd sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae Siarter Iechyd Meddwl yr NEU yn nodi'r fframwaith lle gellir newid y gweithle fel bod iechyd meddwl y gweithwyr yn cael ei amddiffyn. Newid y gweithle a nid y gweithiwr yw nod yr undeb hwn.

I'r perwyl hwnnw, mae Cynhadledd Cymru yn galw ar NEU Cymru a'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

- i. Lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol ar bob Awdurdod Lleol Cymru gyflwyno siarter iechyd meddwl sy'n amddiffyn gweithwyr trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwaith.
- ii. Gynnwys gofyniad yn y ddeddfwriaeth i'r siarter gael ei hyrwyddo'n weithredol ym mhob ysgol yn yr Awdurdod gan weithwyr a gyflogir at y diben hwnnw.
- iii. Ei wneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol (ALI) benodi a hyfforddi person cymorth cyntaf iechyd meddwl ym mhob ysgol yn awdurdodaeth yr ALI.
- iv. Lobïo Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid wedi'i neilltuo i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ar gyfer hyfforddi person cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Diwygiad

- i.) Ychwanegu'r canlynol at ddiwedd pwynt iii. "ac i gynnwys amser rhyddhau a chefnogaeth briodol (e.e. goruchwyliaeth orfodol fel sydd ar gyfer Cynghorwyr a Seicolegwyr Addysg)."

- ii.) Yn ogystal, mae Cynhadledd Cymru yn galw ar NEU Cymru a'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

v) Lobïo Estyn i gynnwys mesur o les staff fel rhan o arolygiadau.

Diwygiad

- i.) Diwygio iv fel a ganlyn:

Dileu “hyfforddi person cymorth cyntaf iechyd meddwl” a rhoi “hyfforddiant cychwynnol a pharhaus swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ogystal â'r amser a'r adnoddau i alluogi cydweithwyr i gael mynediad at y ddarpariaeth yn ôl yr angen” yn ei le

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cyndaliedig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.
- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.